## Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) a’i Brotocolau Dewisol wrth iddynt arfer unrhyw rai o’u swyddogaethau.

1. **Amcanion polisi**

- Effaith pa benderfyniad yr ydych yn ei asesu?

Mae farisela (a elwir yn gyffredin yn frech yr ieir) – yn glefyd hynod heintus sy’n cael ei achosi gan y feirws varicella-zoster. Mae farisela yn gyffredin iawn ac mae’n effeithio ar y rhan fwyaf o blant yn ystod plentyndod, ond gall rhywun o unrhyw oedran ei ddal am y tro cyntaf. Mae farisela yn aml yn fwy difrifol mewn babanod ifanc iawn (o dan 4 wythnos) ac oedolion, yn enwedig mewn beichiogrwydd pan all achosi cymhlethdodau yn y fam a'r ffetws, ac mewn oedolion sy'n imiwnoataliedig.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o farisela ymhlith plant yn gymharol ysgafn ac mae'r salwch yn gwella heb unrhyw angen am driniaeth gan weithiwr meddygol proffesiynol, er bod y rhan fwyaf o blant yn anhwylus am sawl diwrnod a byddant yn colli pum niwrnod neu ragor o'r ysgol neu'r feithrinfa. Er hynny, bydd cymhlethdodau yn sgil farisela yn datblygu ymhlith rhai plant gan gynnwys heintiau bacterol o ganlyniad i friwiau croen, (gan gynnwys streptococws grŵp A) ac, mewn achosion prin, cyflyrau fel enseffalitis, niwmonitis a strôc. O bryd i'w gilydd, gall y cymhlethdodau hyn achosi i blant orfod cael eu derbyn i’r ysbyty ac, ar adegau prin, gallant arwain at farwolaeth.

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi argymell y dylid cyflwyno rhaglen gyffredinol i frechu rhag farisela (brech yr ieir) fel rhan o'r amserlen imiwneiddio arferol i blant. Dylai’r rhaglen frechu hon fod yn rhaglen dau ddos sy’n cynnig brechiad yn 12 mis ac yn 18 mis oed gan ddefnyddio’r brechlyn MMRV cyfunol (y frech goch, clwy’r pennau, rwbela a farisela): Datganiad JCVI ar raglen brechu rhag farisela plentyndod (brech yr ieir) mewn plentyndod- GOV.UK (www.gov.uk)

Fel y dangoswyd mewn gwledydd eraill sy'n cynnwys farisela yn eu hamserlen frechu arferol, rhagwelir y bydd amserlen 2 ddos yn lleihau nifer yr achosion o farisela a welir yn ystod plentyndod yn gyflym ac yn ddramatig. Bydd y rhaglen yn atal achosion difrifol o farisela, a chymhlethdodau difrifol eraill yn sgil farisela. Er bod y cymhlethdodau hyn yn brin, fe allent fod wedi arwain at dderbyniadau i'r ysbyty neu ganlyniadau difrifol eraill.

Yn ddarostyngedig i gytundeb y Gweinidogion, mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â gwledydd eraill y DU, yn cynnig cyflwyno rhaglen frechu arferol rhag farisela i'r amserlen imiwneiddio yn ystod plentyndod o fis Rhagfyr 2025 ymlaen.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau[1] o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.

Yn 2022, lluniodd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) arolwg ar-lein ddarganfod beth oedd barn rhieni am frechu. Comisiynodd UKHSA y sefydliad rhianta masnachol, Bounty, i anfon e-bost gyda dolen i'r arolwg yn gwahodd rhieni sydd wedi cofrestru â'u sefydliad ac sydd â phlant dros 2 fis oed ac o dan 5 oed i gymryd rhan yn yr arolwg. Cwblhawyd cyfanswm o 1,485 o arolygon gan rieni plant rhwng 0 a 4 oed. Mae canfyddiadau'r arolwg a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023 yn nodi fel a ganlyn:

Roedd gan rieni lefel uchel o hyder yn y rhaglen frechu:

- 95% yn cytuno bod brechlynnau'n gweithio
- 91% yn credu bod brechlynnau'n ddiogel
- 90% yn cytuno bod ganddynt ymddiriedaeth mewn brechlynnau
- 90% o rieni yn cytuno eu bod yn hoffi i'w plant gael eu brechu yn eu meddygfa
- 98% o rieni yn cytuno eu bod yn hoffi cael eu hatgoffa am apwyntiadau ar ddod drwy neges destun neu e-bost

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector amrywiol i gael darlun ymddygiadol o'r rhwystrau, canfyddiadau a phrofiadau mewn perthynas â rhaglenni brechu yng Nghymru.  Mae'r sefydliad yn defnyddio gwahanol offerynnau a dulliau i ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau i lywio strategaethau cenedlaethol a gwelliannau i wasanaethau a dylanwadu arnynt. Y nod yw mynd ati i gynnwys gwahanol garfannau o'r cyhoedd, megis grwpiau ethnig lleiafrifol[2] wrth ddatblygu adnoddau ac ymyriadau, gyda'r nod o lywio a meithrin ymddiriedaeth. Fel rhan o Werthusiad Adroddiad Astudio o adnoddau gwybodaeth a gyhoeddwyd yn 2023 ) defnyddiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl gyda defnyddwyr gwasanaethau, i archwilio agweddau tuag at frechiadau, yn ogystal ag ymwybyddiaeth a barn am wybodaeth am frechiadau. Yn ogystal, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymrun arolwg o Agweddau rhieni yn 2021, gyda'r nod o lywio'r rhaglen frechu cyn ysgol,

---

[2] https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-ymgysylltu/gwerthusiad-o-adnoddau-gwybodaeth-adroddiad-cryno-lleiafrifoedd-ethnig-2023-pdf/

sicrhau bod cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru â rhieni yn diwallu eu hanghenion a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r hyder mewn brechlynnau yng Nghymru. Mae rhai o'r canfyddiadau'n cynnwys:

- Mae rhieni sy'n cael eu dosbarthu fel 6 C2DE[3] (9%) a rhieni anabl (19%) yn fwy tebygol o fod ag amheuon ynghylch diogelwch brechlynnau.
- Mae siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol na grwpiau eraill o fod wedi gweld neu glywed gwybodaeth am frechu yn ystod y 12 mis diwethaf (77%).
- Mae grwpiau oedran iau (16-24), rhieni plant o dan 18 oed, y rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a phobl sy'n nodi eu bod yn drawsryweddol yn fwy tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth am frechiadau sy'n peri pryder.
- Mae pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o raddio nifer o glefydau y mae rhaglen frechu Cymru yn amddiffyn rhagddynt fel rhai nad ydynt yn ddifrifol, felly hefyd pobl LHDTC+.

Mae gwaith pellach yn cael ei gynllunio gan gyfathrebiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar strategaeth sy'n amlinellu i rieni a gofalwyr plant ifanc fanteision cael y brechiad farisela, gan gynnwys gwybodaeth/taflenni wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau penodol, yn seiliedig ar ganlyniadau'r astudiaethau a grybwyllir uchod.

Bydd timau cyfathrebu'r byrddau iechyd yn bwrw ymlaen â'r negeseuon hyn ar lefel leol i gyrraedd eu trigolion.

Bydd cynlluniau cyfathrebu a defnyddio manwl i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen farisela ac i sicrhau'r cyfraddau brechu gorau posibl ym mhob carfan gymwys yn cael eu cynhyrchu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Rhaglen Frechu Cymru.

Mae cyfraddau brechu yn cael eu monitro gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyhoeddir adroddiad gwyliadwriaeth blynyddol sy'n crynhoi tueddiadau mewn anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac amrywiadau daearyddol yn y nifer sy'n manteisio ar imiwneiddiadau fel mater o drefn yn ystod plentyndod yng Nghymru. Er mwyn cyfrifo'r defnydd yn ôl statws economaidd-gymdeithasol, cysylltwyd data â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Mae'r MALIC yn darparu ar gyfer pob LSOA yng Nghymru, wedi'i bwysoli ar draws wyth maes: sef incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Mae'r adroddiad gwyliadwriaeth o 2022-23 wedi'i gyhoeddi ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/cover-national-childhood-immunisation-uptake-data/cover-inequalities-reports/inequalities-in-uptake-of-routine-childhood-immunisations-in-wales-202223/

---

[3] mae'r rhai sy'n ddi-waith a'r rhai sy'n cael eu haddysgu i lefel is na gradd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ystyried y clefydau hyn yn ddifrifol.

3. **Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

Ni fernir y byddai'r broses frechu yn cael effaith negyddol ar fywydau plant a phobl ifanc. Caiff y brechiad farisela ei ychwanegu at y rhaglen frechu arferol yn ystod plentyndod lle bydd y plentyn yn cael ei frechu yn 12 mis a 18 mis – yn yr amgylchiadau hyn, eu rhiant/gwarcheidwad fydd yn penderfynu ar ran y plentyn.

Mae amddiffyn plant rhag datblygu farisela drwy gael y brechiad farisela yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant mewn perthynas ag erthygl ganlynol neu brotocol dewisol gan CCUHP –

**Erthygl 3** - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Statws: gwella

Esboniad: bydd pob sefydliad yn darparu cymorth i sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn ymwybodol o risgiau farisela i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch derbyn brechlyn a thriniaeth. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 3

**Erthygl 5** - Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

Statws: gwella

Esboniad: bydd pob sefydliad yn darparu cymorth i sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn ymwybodol o risgiau farisela i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch derbyn brechlyn a thriniaeth. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 5

**Erthygl 6** - Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Statws: gwella

Esboniad: Bydd rhoi'r brechlyn farisela i fenywod beichiog yn amddiffyn y plentyn rhag farisela, yn cynyddu amddiffyniad ar lefel y boblogaeth ac yn lleihau nifer y babanod sy'n ymgyflwyno mewn meddygfeydd ac ysbytai gyda symptomau farisela difrifol. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 6.

**Erthygl 18** - Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

Statws: gwella

Esboniad: bydd pob sefydliad yn darparu cymorth i sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn ymwybodol o risgiau farisela i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch derbyn brechlyn a thriniaeth. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 18.

**Erthygl 22** - Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

Statws: gwella

Esboniad: Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru dîm sydd wedi ymroi i ymgysylltu â'r cyhoedd a thegwch brechu. Mae rhaglenni brechu dal i fyny a manteisio ar y cyfle i gael brechiad yn cael eu cynnal yn aml i sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael mynediad at yr holl frechiadau arferol yn ystod plentyndod. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 22.

**Erthygl 24** - Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da.

Statws: gwella

Esboniad: yn y tymor hir, bydd cyflwyno farisela i'r amserlen frechu yn ystod plentyndod yn gwella ansawdd y gofal iechyd sydd ar gael i atal farisela ymhlith plant. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 24.

Mae darparu'r rhaglen frechu hon hefyd yn ystyried ymrwymiad y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol i adlewyrchu argymhellion Arsylwadau Terfynol CCUHP mewn penderfyniadau polisi iechyd. Bydd yn cryfhau argaeledd gwasanaethau iechyd sylfaenol ac arbenigol pediatrig o ansawdd, sy'n sensitif i blant ac sy'n briodol i'w hoedran i bawb y bernir eu bod yn gymwys yn unol â chyngor y JCVI, fel y nodir yn yr erthyglau Iechyd a llesiant sylfaenol (erthyglau 6, 18 (3), 24, 26, 27 (1)–(3) a 33.

## 4. Cyngor i'r Gweinidogion a'u penderfyniad

- Sut y bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn cyfrannu at eich cyngor i'r gweinidogion?

Bydd y Gweinidog yn cael ei hysbysu y bydd cyflwyno rhaglen brechu rhag farisela yn cael effaith gadarnhaol ar blant (yn unol â chyngor JCVI). Bydd y Gweinidog yn cael sicrwydd y bydd camau'n cael eu cymryd i fanteisio i'r eithaf ar yr effeithiau cadarnhaol a lleihau'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r brechlyn fel yr amlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

## 5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Fel y nodwyd uchod, nid ydym wedi cwblhau unrhyw waith cyfranogol gyda'r plant yr effeithir arnynt, gan fod y rhaglen frechu wedi'i thargedu at blant sy'n 12 mis a 18 mis oed, felly, y rhiant neu'r gwarcheidwad fydd yn gorfod gwneud y penderfyniad i frechu. Bydd cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu i godi ymwybyddiaeth o farisela a'i gynnwys yn y rhaglen frechu arferol yn ystod plentyndod.

Bydd datganiad ysgrifenedig Gweinidogol a chylchlythyr iechyd Cymru yn cael eu cyhoeddi pan fydd y polisi wedi'i benderfynu yng Nghymru.

**Monitro ac Adolygu**

- Amlinellwch pa drefn ar gyfer monitro ac adolygu y byddwch yn ei rhoi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o’r Effaith ar Hawliau Plant.
- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i’r polisi neu’r dull o'i roi ar waith?

Bydd y broses o weithredu'r rhaglen brechu rhag farisela yn cael ei monitro gan Raglen Frechu Cymru a fydd yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru drwy'r Bwrdd Goruchwylio Brechu fel rhan o'r trefniadau llywodraethiant cenedlaethol. Mae bwrdd prosiect pedair cenedl wedi’i sefydlu i drafod y gwaith o ehangu’r rhaglen ac i gysoni’r ffordd y caiff ei chyflwyno er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU. Bydd y cyfarfodydd hyn yn parhau i fonitro’r cynnydd ynghyd â chyfarfodydd ar lefel swyddogol. Caiff cyfraddau brechu eu monitro fel rhan o raglen wyliadwriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ar imiwneiddiadau.